

Adroddiad Blynyddol Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cyngorydd **N A Burnett**

Ward: **Morfa**

Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 April 2020**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cyngorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Morfa** ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 14 o ymholiadau gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Rwyf hefyd wedi codi llawer o ymholiadau ar y cyd â'r Cyngorydd Stuart Baldwin nad ydynt efallai'n ymddangos ar fy record swyddogol. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelod sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau i'w gweld drwy ddefnyddio'r ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaethol (uchafswm o 200 gair)

Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Cyngorydd Stuart Baldwin ac rydym wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â phroblemau parhaus yn ymwneud ag ailgylchu cymunedol yn Wildmill. Rwyf wedi gofyn am osod biniau stryd ychwanegol yn yr ardal i helpu i fynd i'r afael â phroblemau sbwriel a thipio anghyfreithlon. Rwyf wedi mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phlâu o lygod ffyrnig yn ardal Morfa, gan arwain at faetio carthffosydd lleol. Rwyf wedi parhau i ddeisebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am barcio preswyl mewn nifer o ardaloedd ym Morfa. Rwyf wedi deisebu am osod mesurau gostegu traffig ar Ffordd Quarella ac wedi cyfarfod â'r heddlu lleol ynghylch pryderon parhaus am oryrru yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyda thrigolion lleol. Rwyf wedi gweithio gyda'r Heddlu a Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref. Rwyf wedi cynrychioli ystod eang o bryderon ac atgyfeiriadau preswyl, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol a thai. Yn ystod y Cyfnod Clo, bûm yn wirfoddolwr BAVO gan siopa, casglu siopa a bod yn gyfaill i'r henoed a'r rhai sy'n agored i niwed yn y ward.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig (uchafswm o 200 gair)

Rwyf wedi helpu i drefnu digwyddiadau casglu sbwriel cymunedol ac wedi cefnogi llawer o elusennau lleol. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda thîm mentora The Zone and The Bridge i gefnogi'r digartref, gan gynnal cymorthfeydd digartrefedd rheolaidd a mynd i'r afael â'u problemau. Fel Consort i Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rwyf wedi bod mewn cysylltiad â llawer o grwpiau, elusennau a busnesau lleol ac wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau ysgol a lleol. Rwyf wedi bod yn Llywodraethwr Ysgol AALL i ysgolion Pen-y-bont a Brynteg. Rwyf wedi eistedd ar Gydbwyllgor Archif Morgannwg ac ar y panel cyfweld ar gyfer Archifydd newydd Morgannwg. Rwyf wedi eistedd ar Lys Prifysgol Abertawe. Rwyf wedi cynrychioli trigolion Morfa ar Bwyllgor Rheoli Datblygu/Cynllunio a Chraffu Addysg. Rwyf hefyd wedi bod yn Gadeirydd Apeliadau ac yn aelod o Drosolwg a Chraffu Corfforaethol, BREP a'r Panel Adfer Covid.

Gweithgareddau/Materion Eraill (uchafswm o 100 gair)

Rwyf wedi bod yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Evergreen ac wedi cael arian i gynhyrchu cylchgrawn papur misol i'w ddosbarthu i'n haelodau a'r rhai nad ydynt wedi'u cysylltu'n ddigidol, gyda'r gobaith o leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Y Cynghorydd **N A Burnett:**

Dyddiad: **01/10/2020**